

Eisteddfod Llanarth 2019

Cynhaliwyd Eisteddfod Gadeiriol Llanarth yn neuadd y pentref ar ddydd Gwener Hydref 4ydd a Sadwrn Hydref 5ed. Bu disgyblion ysgol gynradd Llanarth yn cystadlu yn yr adran agored yn gyntaf ac roedd safon eu perfformiadau i'w canmol yn fawr. Llongyfarchiadau i Deian Rees ar ennill y gadair a hynny am yr ail flwyddyn yn olynol. Elen Vobe enillodd cwpan her Siân a Nia i'r cystadleuydd gyda'r nifer uchaf o farciau, ac ar ddiwedd yr holl gystadlu fe ddaeth tŷ Llywelyn i'r brig. Roedd y beirniaid, sef Mrs Rhian Evans (llefaru) a Mrs Iris Hawkins (cerdd), yn fawr eu canmoliaeth o ymdrechion yr holl blant - da iawn chi. Beirniaid yr adran agored ar y prynhawn Sadwrn oedd Mr Gareth John (Cerdd), un o blant Llanarth sydd erbyn hyn yn byw a'n gweithio yn Llundain, a Mrs Dana Edwards, Aberystwyth (llefaru). Enillydd Cwpan Her Teulu Caeralaw i'r llefarydd mwyaf addawol o dan 12 oedd Betrys Llwyd Dafydd, Abermeurig ac Alwena Mair Owen o Lanllwni, dderbyniodd Cwpan Her Teulu Brynawen i'r unawdydd mwyaf addawol o dan 12. Cyflwynwyd cwpan her Isabel Jones er cof am ei rhieni, i'r perfformiad mwyaf cofiadwy yn y cystadlaethau dros 12 oed i Lois Medi, Llandre. Un arall o blant talentog y pentref, sef Miss Catrin Haf Jones, Penlanymor a Chaerdydd oedd beirniad yr adran lenyddol. Enillydd Gwobr Llenyddiaeth yr Ifanc oedd Mali Thomas, Rhos, Llangeler. Cafwyd beirniadaeth arbennig gan Catrin Haf yn ystod y seremoni a derbyniodd Mali ganmoliaeth uchel iawn am ei gwaith. Diolch i lywydd yr eisteddfod sef y Cynghorydd Bryan Davies, Synod Uchaf am ei eiriau caredig a rhodd hael a hefyd am ei gefnogaeth barhaus i'r eisteddfod. Unwaith eto eleni, cynhaliwyd "Eisteddfod Hwyllog, Fywiog" gyda'r hwyr a hynny o dan arweiniad Trystan Jones, Fron. Bu llawer o chwerthin a mwynhau rhwng timoedd Llanarth a Gweddill y Byd a chafwyd noson hwyllog dros ben. Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a gefnogodd eisteddfod Llanarth eleni eto ac edrychwn ymlaen at eisteddfod 2020!